CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
15 Hydref 2019, Neuadd Talwrn
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng W Vaughan, A Wyn, A C Jones, D ap Rhobert, C McGregor, D Rees (Cyngor sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, C Jones, D Roberts, E Williams, G D Williams, D Pritchard, W Williams	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cyng A Wyn.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 24.09.19. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Llwybr wrth ymyl yr Hen Siop Talwrn** - I gofrestru fel llwybr troed cyhoeddus, nododd y Clerc y bydd angen 7 datganiad tyst yn gadarnhau'r defnydd o'r llwybr. Cytunwyd i beidio â bwrw ymlaen â'r mater.
4.2	**Archwilydd allanol** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb
4.3	**Lay By Llangwyllog** - Mae'r Clerc yn disgwyl clywed gan yr Heddlu
4.4	**Llwybr Tre Ddewi** - Cytuniwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf
4.5	**RAF y Fali** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod
4.6	**Eglwys Llanddyfnan** - Mae'r Clerc yn disgwyl am dyddiad y cyfarfod
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	Ymgynghoriad Cynllunio HHP/2019/234 Hafod y Coed, Talwrn - dim sylwadau
5.2	Ymgynghoriad Cynllunio HHP/2019/246 The Granary, Llanddyfnan - dim sylwadau
5.3	Ymgynghoriad Cynllunio VAR/2019/69 Chwarel Nant Newydd - Ar hyn o bryd mae 25-30 o lorïau'r dydd yn defnyddio'r chwarel. byddai amrywio'r caniatâd cynllunio yn caniatáu traffig ychwanegol. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn cytuno i'r amrywiant.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Derbyniwyd dyfynbris gan Gareth Hughes (y contractwr glaswellt) ynghylch gwaith yn Lon Maes Gwyn. Cyfrifoldeb y Cyngor Sir yw'r ffordd hon.
	Llofnod……Cadeirydd 19.11.19

7	**MATERION ARIANNOL**
7.1	Cytuniwyd i dalu Gareth Hughes £90.00 (torri gwair Maes y Coed)
7.2	Adolygu cyflog y Clerc/Swyddog Cyllid - Cytunwyd i gynyddu'r cyflog o £ 3300 i £ 3630 o Ebrill 2020
7.3	Adolygiad ariannol chwarterol - Derbyniwyd adroddiadau y Clerc/Swyddog Cyllid sydd yn cadarhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal chostau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Angen torri coed o gwmpas y lamp ar draws i Bodlondeb a'r golau wrth ymyl Glascoed. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.2	Ffordd o groesffordd Talwrn i Bentraeth yn dirywio - Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir
8.3	Annibyniaeth Cymru - Pasiodd y Cyngor gynnig yn cytuno i Annibyniaeth Cymru
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Amseroedd bws Capel Coch
	Llofnod……Cadeirydd 19.11.19